Gorffennaf 2016

# Papur Cefndir Astudiaeth Ynni Adnewyddol

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

Gwynedd a Môn

**PAPUR CEFNDIR ASTUDIAETH YNNI ADNEWYDDOL**

# CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD GWYNEDD A MÔN

## Papur Cefndir - Astudiaeth Ynni Adnewyddol

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Cyflwynodd Newid â Ffocws NF33 destun ychwanegol ym mharagraff 7.2.24 o adran technoleg ynni adnewyddadwy y Cynllun Adnau i adlewyrchu gwaith pellach yr oedd y Cynghorau yn ei wneud o ran y posibilrwydd o ddynodi ardaloedd o gyfle ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy neu dechnolegau carbon isel eraill. Roedd hyn mewn ymateb i'r llythyr dyddiedig 10 Rhagfyr 2015 gan y Gweinidog dros Adnoddau Naturiol yng ngoleuni diweddariad i 'Canllawiau Ymarfer: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddol a Charbon isel – teclyn cymorth ar gyfer cynllunwyr' (Medi 2015) (teclyn cymorth).

1.2 Mae'r adroddiad hwn yn dwyn ynghyd ddwy ffrwd gwaith a gafodd ei wneud i asesu potensial ar gyfer ardaloedd o gyfle i gael eu nodi yn y Cynllun ar gyfer clystyrau tyrbin gwynt a ffermydd solar PV.

<u>Ffrwd waith 1</u>

1.3 Gwnaeth ARUP waith ar 'Cwmpasu gyfleoedd ynni adnewyddadwy yng Ngwynedd' (DC.012), a chynhaliwyd gwaith tebyg ar Ynys Môn yn 2013 a arweiniodd at 'Capasiti ynni adnewyddol ar gyfer Ynys Môn' (DC.013). Mae'r Cynghorau wedi adolygu ardaloedd clwstwr gwynt posibl a nodwyd yn yr adroddiadau hyn yn erbyn y canfyddiadau gwaith "Asesiad Sensitifrwydd a Chapasiti y Tirwedd" (DC.020) i ganfod p'un a dylid dynodi unrhyw un o'r ardaloedd hyn fel ardaloedd o gyfle o fewn y Cynllun.

<u>Ffrwd waith 2</u>

1.4 O ganlyniad i'r newidiadau yn y Teclyn Cymorth 2015, sy'n cyflwyno ffermydd solar PV fel technoleg ychwanegol i gael eu hasesu, comisiynodd y Cynghorau ddarn o waith i ganfod a oes meysydd cyfle posibl o fewn ardal y Cynllun ar gyfer ffermydd solar PV. Fe wnaeth y gwaith hwn gymhwyso canfyddiadau'r Astudiaeth sensitifrwydd a chapasiti y tirwedd hefyd.

1.5 Daeth y ddau ffrwd gwaith uchod i'r casgliad nad oes unrhyw ardaloedd o gyfle ar gyfer clystyrau tyrbin gwynt, fodd bynnag, ceir cyfleoedd ar gyfer ffermydd solar PV. Yng ngoleuni hyn mae'r Cynghorau yn awgrymu bod polisi ychwanegol yn cael ei gyflwyno o fewn y Cynllun i ymdrin yn benodol â datblygu ffermydd solar PV, gyda gwelliant cysylltiedig i Bolisi ADN 2 i adlewyrchu na fyddai hwn yn ymdrin a ffermydd solar PV bellach. Credir bod y newidiadau hyn yn briodol ac os mae'r Arolygydd yn cytuno gellir trin y mater fel Mater sy'n arwain at Newid yn yr Archwiliad.

1.6 Mae gweddill yr adroddiad fel a ganlyn:

- Atodiad A – Ardaloedd posibl i chwilio am ddatblygu ffermydd gwynt
- Atodiad B – Asesiad o botensial ar gyfer ffermydd solar PV yng Ngwynedd ac Ynys Môn.
- Atodiad C – Diwygiad i adran technoleg ynni adnewyddadwy yn y Cynllun Adnau
- Atodiad CH – Mapiau mewnosod i ddangos yr ardaloedd cyfle ar gyfer ffermydd Solar PV.